**Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd Nos Fawrth Medi 19eg am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.**

**Presennol:** Cynghorwyr Rob Parkes (Cadeirydd), Philip Stevens, Lara Pritchard, Dyfrig Berry, Alyn Ashworth a Gwawr Cordiner; Jenny Barlow (Clerc y Dref).

Cyrhaeddodd y Cyng Rhys Thomas am 6.51yh.

**Ymddiheuriadau:** Dim

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod Mis Medi.

1. **Datgan Diddordeb Personol:** Dim.

2. **Derbyniwyd a chymeradwywyd cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 18fed o Orffennaf 2017.**

3. **Materion yn codi:** Gofynnwyd am fanylion ychwanegol ar gais 01/2017/0715 fan CSDd, ni dderbyniwyd. Mae clerc y dref am gysylltu eto.

4. **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio**.

   Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio:

(1) 01/2017/0750
Uned 3 Parc Siopa Dinbych, Yard yr Orsaf, Dinbych.
Gosod 6 unedau aerdymheru ac uned storio potel nwy i'r cefn.

(2) 01/2017/0801
Tir oddi ar A525, Dinbych
Codi adeilad amaethyddol da byw a gwaith cysylltiedig.

(3) 01/2017/0851
Lodge Farm, Dinbych
Adeiladu tanc storio slyri ddur uwchben y ddaear.

Cyrhaeddod y Cyng Rhys Thomas am 6.51yr a rhodiodd fanylion ychwanegol ynglŷn â chais (1).

1) 01/2017/0750 mae yna fater ynglŷn â mynediad i gyflenwadau. Ar y cynlluniau gwreiddiol, roedd lifft gwasanaeth ond nid yw hyn wedi ei gwblhau. Nid oes ramp o'r maes parcio i'r 3 uned newydd, bydd yn rhaid i bobl fynd o amgylch Ffordd yr Orsaf ac i lawr Stryd y Ffynnon i fynd i'r siopau hyn. Hefyd, lefel sŵn gyda'r unedau aerdymheru - angen sicrhau na fydd y lefelau sŵn yn cael effaith ar drigolion lleol.

2) 01/2017/0801 - yn hapus gyda'r gwaith adeiladu ond mae angen sicrhau nad oes unrhyw faterion amgylcheddol a fydd yn effeithio ar y trigolion lleol.

5. **Materion Cynllunio eraill:** Nodwyd diweddariad ynglŷn â Fferm Wynt Coedwig Clocaenog. - EN010013.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 6.58 o'r gloch.

Arwyddwyd:……………………………………………….(cadeirydd)

Dyddiad:…………………………………